30 Medi Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Covid Hir

Lleoliad: Microsoft Teams

Yn bresennol

Rhun ap Iorwerth AS (Cydgadeirydd)
Hefin David AC (Cydgadeirydd)
Jayne Bryant AS
Lee David Bowen (Long-COVID Cymru, Ysgrifenyddiaeth)
Dr Ian Frayling (Long-COVID Cymru, Ysgrifenyddiaeth)
Siân Griffiths (Long-COVID Cymru, Ysgrifenyddiaeth)
Georgia Walby (Long COVID Cymru, Ysgrifenyddiaeth)
Andrew Bettridge (Swyddfa John Griffiths AS)
Heledd Roberts (Swyddfa Rhun ap Iorwerth AC)
Alex Still (Swyddfa Hefin David AS)
Joseph Carter (Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint)
Sammie McFarland (Long-COVID Kids)
Nicolas Webb (Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu)
Ceri Williams (TUC Cymru)

Agenda

Sammie McFarland sylfaenydd Long Covid Kids i siarad
Leanne Jagne, mam i ferch 16 oed sydd â Covid Hir i siarad
Cynrychiolydd y TUC i roi Diweddariad ar waith y TUC ar Covid Hir

Cyfarfod

Siaradodd Sammie McFarland am ei phrofiadau personol hi a'i phlant o ddioddef o Covid Hir ers dechrau 2020. Disgrifiodd fel na chydnabyddir mewn llawer o leoedd bod Covid Hir yn effeithio ar blant. Dim ond dechrau cael eu hariannu y mae gwasanaethau yn Lloegr. Dywedir wrth rieni o hyd eu bod yn gor-bryderu neu fod eu plant yn codi pryderon y rhieni. Rhannodd Sammie sleidiau o adnoddau sydd ar gael i rieni ar wefan LongCovidKids.

Dywedodd Leanne Jagne hanes teimladwy am frwydrau ei merch gyda Covid Hir gan gynnwys faint o amser o’r ysgol y mae wedi'i golli a'r ffaith bod ei merch newydd brofi'n bositif eto er gwaethaf sicrwydd gan ei meddyg teulu na fyddai hyn yn digwydd oherwydd bod gan ei merch wrthgyrff. Dywedodd Leanne hefyd ei bod wedi gorfod talu £30 yn ddiweddar i’r feddygfa am lythyr yn manylu ar salwch ei merch gan fod yr ysgol wedi mynnu hynny.

Rhoddodd Ceri Williams y wybodaeth ddiweddaraf am waith y TUC i gydnabod Covid Hir fel Salwch Diwydiannol ar gyfer gweithwyr allweddol fel y gall pobl sy'n agored iddo gael cyfradd uwch o gymorth ariannol. Maent hefyd yn gweithio i gydnabod Covid Hir fel anabledd gan y bydd hyn yn helpu gweithwyr nad ydynt yn allweddol i gael gafael ar gymorth ariannol ynghyd ag amddiffyniadau yn y gwaith.

Camau i'w cymryd:

Y cydgadeiryddion i ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch y pynciau a drafodwyd heddiw - gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd â COVID Hir ac ymgyrch y TUC i gydnabod COVID Hir fel clefyd diwydiannol ac anabledd.